Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd – Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Mawrth 2021

Annwyl Gadeirydd

ADOLYGIAD O DREFNIADAU CAFFAEL CYNLLUN CEFNOGI SWYDDI CYMRU

Yn ystod y sesiwn casglu tystiolaeth y gwnes ei mynychu gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 8 Chwefror gwnes gadarnhau y buaswn i'n rhannu'r adroddiad terfynol ar yr adolygiad mewnol o drefniadau caffael Cynllun Cefnogi Swyddi Cymru. Mae'r broses archwilio mewnol bellach wedi'i chwblhau ac amgaeir yr adroddiad ar yr adolygiad.

Gyda dymuniadau gorau.

Yn gywir



Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O'R BROSES AR GYFER CAFFAEL TENDR CEFNOGI SWYDDI CYMRU

---

1. Cyflwyniad

1.1 Ar 27 Ionawr 2020, cynghorwyd Gweinidogion Cymru i roi'r gorau i'r ymarfer caffael ar gyfer dyfarnu contractau i ddarparu Cefnogi Swyddi Cymru (CSC) ac i chwilio am ffyrdd gwahanol o sicrhau canlyniadau'r polisi. Dyma'r ail dro y rhoddwyd y gorau i'r ymarfer ar gyfer caffael y fframwaith hwn.

1.2 Comisiynodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd adolygiad i nodi'r problemau a gafwyd gyda'r ymarfer caffael hwn, a'r risg y gallent godi eto yn Llywodraeth Cymru.

1.3 Dyma gwmpas yr adolygiad hwn:

a) Cael hyd i'r ffeithiau pam y rhoddwyd y gorau i'r cynnig cyntaf i gaffael y fframwaith hwn.

b) Crynhoi, adolygu a chadarnhau'r gwersi a ddysgwyd o'r ymarfer cyntaf hwn, er mwyn defnyddio'r gwersi hynny.

c) Cael hyd i'r ffeithiau pam y rhoddwyd y gorau i'r broses i gaffael y fframwaith hwn am yr ail dro a chadarnhau'r ffeithiau hynny.

d) Paratoi adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd ynghylch beth aeth o'i le.

e) Argymell a oes angen ymchwilio i dendrau eraill.

1.4 Er mwyn cwblhau'r adolygiad, cynhaliwyd cyfarfodydd ag uwch swyddogion polisi, aelodau'r Gwasanaeth Caffael Corfforaethol (CPS) ac aelodau'r panel gwerthuso. Hefyd, cynhaliwyd adolygiad ffeiliau o'r ail ymarfer caffael.

2 Crynodeb o'r Canfyddiadau

2.1 Rhoddwyd y gorau i gaffael CSC ar ôl cael cyngor cyfreithiol a awgrymai nad oedd ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi'r sgoriau terfynol a gymedrolwyd yn ddigon cryf i wrthsefyll her gyfreithiol. Dywedodd Cwnsler y Frenhines (y Cwnsler) mai rhoi'r gorau i'r broses gaffael fyddai'r dewis gorau o dan yr amgylchiadau (*"least worst option"*). Mae'r adolygiad hwn wedi cadarnhau er mai barn oddrychol yw faint o naratif sydd ei angen i gefnogi penderfyniad, nid oedd digon o fanylder yn y naratif i gefnogi'r sgoriau a gymedrolwyd, yn enwedig os oedd y sgoriau hynny wedi golygu bod mwyafrif y cymedrolwyr wedi newid eu barn er mwyn dod i gytundeb.

2.2 Cynhaliwyd y broses gaffael yn unol â phrosesau CPS. Pennodd y Cwnsler nad oedd prosesau caffael safonol Llywodraeth Cymru'n ddigon cryf i allu'i hamddiffyn rhag her o'r fath. Mae'n bosibl felly nad yw'r broblem wedi'i chyfyngu i'r ymarfer hwn. Mae'r CPS wedi dangos tystiolaeth bod gwelliannau wedi'u gwneud i leihau'r risg o

NB – Working Wales was subsequently renamed Job Support Wales as the former name became used as the new employability advice service delivered by Careers Wales from April 2019.

her lwyddiannus yn y dyfodol ond mae angen gwneud rhagor i wella'r prosesau, yn enwedig o ran gwella'r arweiniad ynghylch lefel y naratif sydd ei angen i gefnogi sgoriau wedi'u cymedroli, o fewn timau caffael a pholisi ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

2.3 Ceir problemau ynghylch digonolrwydd y broses Sicrhau Ansawdd, gyda swyddogion polisi a'r CPS yn archwilio sgoriau wedi'u cymedroli yn unig, heb edrych yn fanwl ar sgoriau gan unigolion. Gwelsom wendidau hefyd yn y drefn lofnodi ar gyfer cymeradwyo ymarferion **caffael.** Gallai cyfraniad swyddogion SCS y Gyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael wella hynny yn achos ymarferion cymhlethach.

2.4 Roedd hwn yn ymarfer caffael cymhleth, gyda cheiswyr ar y cyfan yn rhoi atebion o ansawdd uchel i'r cwestiynau a ofynnwyd a'r sgoriau'n seiliedig ar feini prawf goddrychol iawn. Dewiswyd y panel i sicrhau cydbwysedd teg rhwng perchenogion polisi ac aelodau annibynnol mewnol ac allanol. Cafodd y panel drafodaeth hir am bob cynnig ond oherwydd y goddrychedd, gwelwyd yr aelodau'n newid eu barn yn rhwydd. Pe bai'r newid barn hwn wedi'i gofnodi'n ddigonol, yna mae'n debygol y byddai'r Cwnsler wedi awgrymu y byddai Llywodraeth Cymru'n fwy tebygol o lawer o allu gwrthsefyll her.

2.5 Rydym wedi gwneud wyth argymhelliad yn yr adolygiad hwn. Fe welwch dabl o'r argymhellion hyn ar dudalen wyth yr adroddiad hwn.

3 <u>Canfyddiadau Manwl</u>

a) Cael hyd i'r ffeithiau pam y rhoddwyd y gorau i'r cynnig cyntaf i gaffael y fframwaith hwn.

3.1 Un rhaglen oedd Cymru'n Gweithio gyda saith lot. Roedd un lot cenedlaethol ar gyfer Cyswllt Ieuenctid Cymru'n Gweithio (ar gyfer pobl ifanc sydd bellaf o'r farchnad lafur), tair lot ranbarthol ar gyfer Hyfforddiant Ieuenctid Cymru'n Gweithio (ar gyfer pobl ifanc eraill ddi-waith) a thair lot ranbarthol ar gyfer Oedolion Cymru'n Gweithio (yn bennaf ar gyfer pobl ddi-waith 18+ oed). Roedd ceiswyr yn cael cynnig am Hyfforddiant Ieuenctid ac Oedolion yn yr un rhanbarth. Y ceiswyr â'r sgôr uchaf ym mhob lot fyddai'n cael cynnig comisiwn. Roedd llawer o'r cwestiynau ym mhob lot yn gyffredin.

3.2 Rhoddwyd y gorau i'r ymarfer caffael gyda chytundeb Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth. Ar ôl anfon y llythyrau Bwriad i Ddyfarnu, derbyniodd Llywodraeth Cymru bum cwyn ysgrifenedig, ynghylch ymhlith eraill bod llawer o gwestiynau tebyg wedi cael eu sgorio'n eithaf gwahanol yn y lotiau amrywiol. Cafodd y cyfnod segur felly ei estyn er mwyn gofyn cyngor cyfreithiol a chyngor caffael.

3.3 Cynhaliwyd y gwerthusiad gan ddau banel. Gwerthuswyd y lotiau ieuenctid gan y naill a'r lotiau oedolion gan y llall. Penderfynwyd diystyru'r sgoriau gwreiddiol ac yn unol â'r cyngor cyfreithiol, cynhaliwyd ail werthusiad annibynnol o'r tendrau ac anfon llythyrau Bwriad i Ddyfarnu newydd, os oedd angen. Crewyd tim gwerthuso newydd gyda dau arbenigwr caffael annibynnol allanol yn aelodau ohono. Gwnaeth y tîm

newydd hwn werthuso'r holl dendrau ac er i gyfarfodydd consensws gael eu cynnal mewn cysylltiad â'r saith lot, nodwyd rhagor o broblemau.

3.4 Bu cynigydd yn aflwyddiannus yn y gwerthusiad cyntaf ond yn llwyddiannus yn yr ail. Fodd bynnag, yn ystod yr ail werthusiad, deallwyd ar ôl iddo lwyddo ei fod wedi llofnodi cytundeb cyfrinachedd ac ymrwymo i roi gwybod i Lywodraeth Cymru pe bai'n bwriadu cynnig. Ni wnaeth hynny. Er bod swyddogion yn hyderus na chafodd y cynigydd unrhyw fantais, gallai'r ffaith na chymerwyd camau yn ei erbyn pan gyflwynwyd yr holiadur cyn cymhwyso gael ei ystyried yn dramgwydd yn erbyn y gofyn i fod yn dryloyw.

3.5 Roedd y cyngor cyfreithiol yn awgrymu y dylid rhoi'r gorau i'r ymarfer caffael gan mai dyna fyddai'r dewis â'r risg lleiaf.

b) Crynhoi, adolygu a chadarnhau'r gwersi a ddysgwyd o'r broses gyntaf hon, er mwyn defnyddio'r gwersi hynny.

3.6 Ar ôl yr ymarfer cyntaf, cynhaliwyd arolwg o'r gwersi a ddysgwyd a chafodd nifer o argymhellion eu gwneud i wella'r ail ymarfer CSC. Roedd ynddynt elfennau a oedd yn benodol i'r ymarfer y rhoddwyd gorau iddo, fel cadw cofnodion o gyfarfodydd â chyflenwyr posibl a'u nodi ar y porthol, cynnal digwyddiadau trafod â'r farchnad er mwyn i randdeiliaid gael dweud eu dweud mewn ffordd agored a thryloyw a chynyddu nifer aelodau'r panel o dri i bump.

3.7 At hynny, gwnaed argymhellion mwy cyffredinol ynghylch gwella'r hyfforddiant i werthuswyr a chryfhau'r papurau argymell dyfarnu contract yn achos ymarferion caffael cymhleth ac uwch eu risg. Yn ystod ein hadolygiad, cadarnhaodd ein cydweithwyr caffael eu bod wedi rhoi'r argymhellion hyn ar waith, gan gynnwys cryfhau'r papurau argymell. Bydd angen rhagor o welliannau yn sgil yr adolygiad hwn.

c) Cael hyd i'r ffeithiau pam y rhoddwyd y gorau i'r broses i gaffael y fframwaith hwn am yr ail dro a chadarnhau'r ffeithiau hynny.

3.8 Cafwyd dau gam i'r cwynion, neu'r heriau cyfreithiol, tuag at ddiwedd yr ymarfer caffael. Roedd y gŵyn gyntaf gan y cynigydd aflwyddiannus o lot un (allan o 7) yn canolbwyntio ar y fantais a gafodd y cynigydd llwyddiannus o fod yn aflwyddiannus yn yr ymarfer blaenorol. Mae'r Rheoliadau ar Gontractau Cyhoeddus yn gofyn bod awdurdod contractio'n rhoi ei resymau dros wrthod cynnig a theimlwyd bod hynny wedi rhoi anfantais annheg gan alluogi'r cynigydd i gyflwyno cynnig gwell a llwyddiannus yn yr ail ymarfer.

3.9 O gael rhagor o wybodaeth, gwelodd y achwynwr broblemau eraill â'r sgôr a gymedrolwyd a chyflwynodd heriau eraill ynghylch digonolrwydd y naratif i gefnogi'r sgôr a gymedrolwyd. Aed â hyn ymhellach pan gyflwynodd y cynigydd llwyddiannus her yn erbyn lot wahanol lle bu'n aflwyddiannus.

3.9 Cafodd y rhaglen CSC ei dylunio mewn ffordd debyg iawn i'r ymarfer cyntaf, gyda 7 lot a cheiswyr yn cael cynnig am raglenni Hyfforddi Ieuenctid ac Oedolion yn yr un

rhanbarth. Y cynigydd â'r sgôr uchaf ym mhob lot fyddai'n ennill y contract. Cadarnhawyd bod y cwestiynau wedi cael eu newid ychydig ond roedd llawer o hyd yn gyffredin ar draws y lotiau.

3.9 Cynhalion ni adolygiad ffeiliau o'r ymarfer caffael, gan ganolbwyntio ar y broses werthuso ond gan sicrhau bod dogfennau allweddol i gefnogi'r broses wedi'u cynhyrchu. Gwelsom fod y ffeil yn gynhwysfawr, yn cynnwys yr ystod lawn o ddogfennau y disgwylid eu gweld ynddi, gan gynnwys taflenni sgorio unigol, taflenni sgorio consensws, cyngor cyfreithiol, ffurflenni gwrthdaro buddiannau, cadarnhad o'r hyfforddiant a roddwyd i aelodau'r panel a llawer mwy.

3.10 Cynhaliwyd Asesiad Strategaeth Gaffael ar ddechrau'r broses gaffael. Penderfynodd hyn ar drywydd caffael priodol a barnodd y tîm polisi ei fod yn "Allweddol o Safbwynt Strategol". Llenwodd y tîm polisi ffurflen Asesu'r Potensial am Risg fel rhan o Broses Porth yr OGC, gan asesu bod yr CSC o Risg Ganolig. Nid oes cysylltiad rhwng y ddwy broses ac o'r herwydd, ni chafodd rhai ffactorau allweddol o safbwynt y sector eu hystyried gan y CPS yn eu hasesiad nac yn ystod y broses gaffael. Ar ôl trafod â swyddogion, mynegwyd y farn gyffredinol y gallai'r ymarfer hwn gael ei ystyried fel un uchel ei risg am y rhesymau canlynol:

- Problemau blaenorol â thendr Cymru'n Gweithio
- Sector Anodd – roedd cyflenwyr yn adnabod y gwasanaeth a'r mecanweithiau darparu yn dda, am iddynt ennill contractau yn y meysydd hyn yn y gorffennol
- Un enillydd fesul Lot – yn wahanol i rai contractau hyfforddi eraill lle caiff contract ei gynnig i bob tendr sy'n bodloni'r gofynion. O ganlyniad, gallai cyflenwr fod yn ddi-gontract er iddo brofi'i fod yn gallu ei gyflawni'n llwyddiannus.
- Y posibilrwydd y gallai'r ymarfer cyntaf gael ei herio pe bai ei ganlyniadau yn cael eu newid
- Mae'r gwasanaeth yn gymhleth
- Sgoriau'r tendr yn oddrychol

Argymhelliad – dylid cyfuno asesiadau risg y CPS a'r timau polisi, a chynnal yr ymarferion caffael mewn ffordd sy'n gymesur â lefel y risg a bennir.

3.11 Roedd y gŵyn gyntaf gan y cynigydd aflwyddiannus o lot 6 yn ymwneud â'r fantais a gafodd y cynnig llwyddiannus o fod yn aflwyddiannus yn yr ymarfer cyntaf. Mae'r Rheoliadau ar Gontractau Cyhoeddus yn gofyn bod awdurdod contractio'n rhoi ei resymau dros wrthod cynnig a theimlwyd bod hynny wedi rhoi anfantais annheg gan alluogi'r cynigydd i gyflwyno cynnig gwell a llwyddiannus yn ystod yr ail ymarfer. O gael rhagor o wybodaeth, gwelodd yr achwynwr broblemau eraill â sgôr a gymedrolwyd a chyflwynodd heriau eraill

3.12 Ar sail y trafodaethau â swyddogion, gallwn gadarnhau mai'r CPS, arfer gorau caffael a chynghorwyr cyfreithiol mewnol ac allanol sydd wedi sbarduno'r ymagwedd "lleia' i

gyd, gorau i gyd" ("less is more") o safbwynt dogfennau sgorio a chymedroli unigolion. Ailadroddwyd hyn ym mhob cyfarfod a bu'n rhan o'r hyfforddiant cychwynnol a roddwyd i aelodau'r panel. Seilir yr egwyddor hon ar yr angen i swyddogion leihau'r risg o her gyfreithiol o gael eu sylwadau wedi'u camddehongli. Er bod "less is more" yn ddealladwy, rhaid bod yn gytbwys wrth ymdrin â phob ymarfer caffael i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal mewn ffordd dryloyw a theg. Gwelsom hefyd nad oes rihyrsals caffael yn cael eu cynnal. Byddai hynny wedi sicrhau bod holl aelodau'r panel wedi dod i wybod am y gofynion o ran cofnodi gwybodaeth a'r pwnc.

3.13 Yn y pen draw, bernir bod yr ymarfer caffael wedi methu, hynny oherwydd diffyg tystiolaeth i gefnogi cytundeb aelodau'r panel o'r sgoriau a gymedrolwyd yn Lot 6. Gwnaeth yr achwynwr gyhuddiad cyffredinol bod y ddyletswydd i fod yn dryloyw wedi'i thorri, ynghyd â beirniadaeth fanwl o'r sgorio ar gyfer pedwar o'r pum cwestiwn y cafodd y tendr ei werthuso ar eu sail.

3.14 Daeth y Cwnsler i'r casgliad bod gwendidau amlwg yn y dystiolaeth i gefnogi'r sgoriau wedi'u cymedroli ar gyfer pob un o'r cwestiynau hyn. Yn ôl adolygiad o sgoriau aelodau unigol y panel, y dogfennau ategol a'r sylwebaeth a gynhwyswyd yn dilyn y cyfarfod consensws, mae'n amlwg nad oes digon o gyfiawnhad o'r sgoriau a gymedrolwyd gan bob aelod o'r panel.

3.15 Isod, fe welwch ddetholiad o'r daenlen o'r sgoriau a gymedrolwyd ar gyfer tendr Lot 6 yr achwynwr. Mae'n glir bod y sgôr derfynol a gymedrolwyd mewn ambell le yn wahanol i'r cyfartaledd ac nad yw'r sylwebaeth a roddwyd yn cyfiawnhau'n ddigonol sgôr y consensws.

Question	**Evaluator 1**	**Evaluator 2**	**Evaluator 3**	**Evaluator 4**	**Evaluator 5**	**Final Moderated**	**Score**
1	10	8	10	8	10	8	Confidence
Rationale				**CPS Comments**			
Evidence is sufficient (in qualitative terms), convincing, and credible. The response includes early identification of poor performance and the implementation of a performance improvement plan. The proposed approach seems logical and is supported by examples to demonstrate effectiveness.				The panel agreed the score of confidence was appropriate, some areas of the response could have been expanded on with more detail.			
Question	**Evaluator 1**	**Evaluator 2**	**Evaluator 3**	**Evaluator 4**	**Evaluator 5**	**Final Moderated**	**Score**
2	10	6	10	8	10	8	Confidence
Rationale				**CPS Comments**			
Confidence in the response provided. The response outlines the quality control systems that would be used which seem to be well organised systems. Examples are provided to evidence this.				Following discussions the panel agreed the score, further information could have been included the quality framework and applying to subcontractors.			

Question	Evaluator 1	Evaluator 2	Evaluator 3	Evaluator 4	Evaluator 5	Final Moderated	Score
3	10	10	10	8	10	10	Absolute Confidence
Rationale				**CPS Comments**			
Absolute confidence with the response which is comprehensive and compelling. The response outlines a realistic and highly credible process, supported with examples. Details of the mechanisms that will minimise participant drop-out rates are included.				The panel agreed the score.			
Question	**Evaluator 1**	**Evaluator 2**	**Evaluator 3**	**Evaluator 4**	**Evaluator 5**	**Final Moderated**	**Score**
4	10	10	10	8	10	8	Confidence
Rationale				**CPS Comments**			
Evidence is sufficient (in qualitative terms), convincing, and credible. The response outlines the role of the Lead Worker and how the bidder will ensure that the Lead Worker would have the right skills and experience to carry out their role effectively. The proposed average caseload volumes appear reasonable.				Following discussions the panel agreed a score of confidence was appropriate. The bidder mentions the use of 'bank staff' to cover periods of high volume but does not explain where these will come from or how they will ensure that they would have the right skills.			
Question	**Evaluator 1**	**Evaluator 2**	**Evaluator 3**	**Evaluator 4**	**Evaluator 5**	**Final Moderated**	**Score**
5	10	8	8	6	10	8	Confidence
Rationale				**CPS Comments**			
Evidence is sufficient and credible and the response provides confidence. Details on employer engagement is included and identified access to an array of employers and the use of an employment agency to help participants find work.				The panel agreed the score.			
Question	**Evaluator 1**	**Evaluator 2**	**Evaluator 3**	**Evaluator 4**	**Evaluator 5**	**Final Moderated**	**Score**
6	10	10	10	8	10	10	Absolute Confidence
Rationale				**CPS Comments**			
The response provided evidence that was consistent, comprehensive, and directly relevant to the project. The proposed support to participants on leaving the programme is robust and clearly outlined. A transition plan is also proposed which would be and agreed by all parties which should aid sustainability.				The panel agreed the score.			

3.16 Er bod y naratif sy'n cefnogi pob cwestiwn i'w weld yn weddol resymol, dywed y Cwnsler nad yw'n ddigonol i gefnogi cytundeb yr unigolion i'r sgôr consensws. Nododd y Cwnsler hefyd y byddai'r sylwebaeth i gefnogi'r consensws yn cael ei hystyried yn amherthnasol mewn ambell achos. Er enghraifft, roedd gan gwestiwn 4, sy'n ymwneud â chyflawni rôl y gweithiwr arweiniol, bedwar sgôr o 10 (hyder llwyr). Sail y sgôr is y consensws oedd bod un aelod o'r panel am esboniad llawnach am ddefnyddio cymwysterau staff banc. Ym marn y Cwnsler, mae cymwysterau staff banc

i bob pwrpas yn amherthnasol i gwestiwn 4 ond yn berthnasol i Gwestiwn 3 lle roedd yr achwynydd wedi darparu manylion clir. Gan yr oedd y naratif yn cyfeirio at ystyriaeth oedd yn ymylol i hanfod cwestiwn 4, byddai'r Llys yn debygol o farnu bod camgymeriad cwbl amlwg wedi'i wneud.

3.17 Holwyd aelodau'r panel a chynrychiolwyr y CPS fel rhan o'r adolygiad hwn a chadarnhawyd bod trafodaeth fanwl wedi'i chynnal yng nghyfarfod y consensws, bod pob tendr wedi'i ddadansoddi a bod trafodaeth wedi'i chynnal am bob sgôr. Mae'n syndod na wnaeth arweinydd cynrychiolwyr y CPS nac aelodau'r panel weld problemau'n gynt. Ni chafodd cofnodion o'r cyfarfod eu cadw, fel sy'n arferol gan Lywodraeth Cymru, ac ni wnaeth aelodau'r panel gadw cofnod o'r rhesymau dros y sgoriau wedi'u cymedroli, yn arbennig lle roedd y sgôr a gymedrolwyd yn wahanol i'r sgôr gychwynnol. Fe wnaeth y CPS ofyn i aelodau'r panel gadarnhau'r sgoriau a gymedrolwyd cyn gynted ag y gwnaed yr her, ond naill ai nid yw'r cofnodion yn bod neu maent yn annigonol.

3.18 O ddadansoddi sgoriau pob un o Lotiau'r ymarfer CSC, gallwn gadarnhau bod problemau tebyg wedi codi ar draws yr ymarfer caffael yn gyfan. Gwnaeth y Cwnsler led-gyfeirio at hyn yn ei sgyrsiau ag uwch swyddogion a'i gynnwys yn y cyngor ysgrifenedig: *"As the evidence stands, there is no good reason to believe that the questions regarding the scoring of lot 6 are confined to that lot."*

3.19 Gwnaethom adolygu Papur Argymell Dyfarnu Contract (CARP) sy'n sicrhau bod yr holl benderfyniadau perthnasol sy'n arwain at argymell dyfarniad yn cael eu cofnodi, hynny er mwyn darparu llwybr archwilio ac er mwyn i Bennaeth y CPS allu cymeradwyo'r argymhelliad fel rhan o'i drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ac fel prawf bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu. Ni cafwyd cyfeiriad, ar unrhyw adeg yn y ddogfen, bod risg y gallai gael ei herio yn sgil gwyrdroi sgoriau'r mwyafrif. Cafodd y ddogfen ei llofnodi gan Bennaeth y CPS a chan y prif swyddog polisi. Cadarnhaodd y ddau mai dim ond y sgoriau wedi'u cymedroli, ac nid sgoriau'r unigolion, yr oeddynt wedi'u gwirio fel rhan o'r broses Sicrhau Ansawdd.

Argymhelliad – Bod holl gynrychiolwyr arweiniol y CPS yn cynnal asesiad risg o'r ymarfer caffael ar wahanol adegau yn ystod y broses, gan gynnwys ar ôl cymedroli.

Argymhelliad – Bod y CPS yn gwirio pob sgôr yn ystod y broses Sicrhau Ansawdd yn ymarferion y dyfodol. Bydd angen cadarnhau hynny yn y datganiad.

Argymhelliad – Bod y CPS yn ystyried ailgyflwyno ymarfer adolygu llawn gan gymheiriaid o'r dogfennau i sicrhau bod dadansoddiad priodol o'r risg yn cael ei gynnal, nad oes problemau'n codi'n union o'r sgorio a bod y naratif yn ddigonol

3.20 Mae'n amlwg bod yr ymarfer caffael hwn yn un cymhleth ac uchel ei risg, a bod angen cyfranogaeth y CPS ym mhob cam. Fodd bynnag, dylid ystyried prynu arbenigeddau "i mewn" ar gyfer ymarferion fel hwn, i sicrhau annibyniaeth a chapasiti a galluoedd y timau polisi a chaffael. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio adnoddau caffael

arbenigol yn aml, gyda Thimau Ffyrdd, er enghraifft, yn defnyddio cyflenwyr cymwys a phrofiadol i ddarparu gwasanaethau effeithiol o'r math hwn.

3.21 Cadarnhaodd y CPS eu bod yn ffafrio datblygu galluoedd mewnol yn hyn o beth, trwy adael i'w staff ymdrin â phrosesau caffael cymhleth, ond dylid gwneud hynny gyda chytundeb timau Polisi, ar sail yr asesiad cychwynnol o'r risg a chapasiti timau'r CPS ar y pryd.

Argymhelliad – bod y CPS yn ystyried cyfeirio ymarferion caffael uchel eu risg a / neu cymhleth i ddarparwyr arbenigol allanol, ac yn cofnodi hynny.

3.22 Mae dogfen Sicrhau Ansawdd y CPS a'r broses gyfan yn cael eu cymeradwyo gan Bennaeth y CPS. Ar gyfer ymarferion caffael uwch eu risg, byddem yn disgwyl mynd â hyn i fyny at radd SCS yn y Gyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael. Byddai hynny yn ychwanegu lefel o atebolrwydd ac yn sicrhau bod yr archwiliadau angenrheidiol yn cael eu cynnal. Ni chodwyd yr ymarfer hwn at sylw graddau SCS.

Argymhelliad – Lle gwelir bod ymarfer caffael yn un uchel ei risg a/neu gymhleth, rhywun ar lefel SCS ddylai ei lofnodi.

3.23 Gan fod y problemau a nodwyd yn codi ym mhob un o'r Lotiau, gwnaethom estyn ein hadolygiad ffeiliau i gynnwys dau ymarfer caffael arall a gynhaliwyd yn 2019/20. Gallwn gadarnhau bod hyn yn ddull o gofnodi sgoriau wedi'u cymedroli sy'n cael ei ddefnyddio'n gyson gan y CPS ac aelodau paneli.

3.24 Mae'r cyfnod segur yn lleihau'r risg y caiff ymarferion caffael eraill eu herio. Yn LlC, mae'r cyfnod segur yn para deng niwrnod calendr ar ôl rhoi gwybod am benderfyniad i ddyfarnu contract gafodd ei dendro trwy'r OJEU a chyn i'r cyflenwr llwyddiannus lofnodi'r contract. Bydd LlC yn cynnal cyfnodau segur hefyd ar gyfer pob proses gaffael mini-gystadleuaeth dros £500k.

3.25 Er y gellir herio ymarfer caffael ar ôl y cyfnod segur, credir y byddai llys yn fwy tebygol o edrych yn llai ffafriol ar gŵyn a wneir y tu allan i'r cyfnod hwn.

3.26 Mae'r CPS wedi cadarnhau hefyd eu bod eisoes wedi dysgu gwersi'r ymarfer caffael hwn a'u bod wedi dechrau rhoi mwy o naratif am y sgoriau a gymedrolwyd. E-bostiwyd holl staff y CPS ar 29 Ionawr i esbonio bod angen ymhelaethu ar y naratif cymedroli. Yn sgil adolygu'r papur cymedroli diweddaraf, awgrymwn y gellid gwella arno trwy roi'n hargymhelliad cynharach ar waith sef cynnwys sylwadau unigolion am y cytundeb i roi sgôr cymedroli uwch neu is. Dylid gofyn cyngor y timau Archwilio neu Lywodraethu hefyd fydd yn rhoi arweiniad ar lwybrau archwilio i gefnogi penderfyniadau allweddol. Dylid rhoi arweiniad i aelodau'r panel ar y problemau a gafwyd gyda'r ymarfer caffael hwn i sicrhau bod pawb yn gwybod beth yw effaith peidio â bod yn gytbwys ac yn dryloyw.

Argymhelliad – Dylid cynnwys gwelliannau pellach i'r naratif ym mhob adroddiad cymedroli, i gynnwys o leiaf y rheswm penodol pam y mae pob gwerthuswr wedi cytuno

ar sgôr consensws sy'n wahanol i'r un a roddwyd. Dylid gofyn cyngor cydweithwyr Llywodraethu, Archwilio a Chyfreithiol am y gofynion lleiaf.

3.27 Ar hyn o bryd, dim ond un ymarfer caffael sydd yn ei gyfnod segur ac wedi felly dod i ben cyn i'r gwersi gael eu dysgu. Daeth y cyfnod segur i ben ar 20 Chwefror 2020 heb i'r ymarfer gael ei herio. Rydym yn fodlon felly nad oes fawr o risg y gellid ei herio am y rhesymau a nodwyd yn yr adolygiad hwn.

3.28 Ond bydd elfen cymedroli sgoriau'r ymarferion mwy cymhleth yn parhau'n oddrychol, a cheir cyfle i ddehongli tendrau. O ystyried faint o gofnodion sydd angen eu cadw ar gyfer yr ymarfer caffael hwn ac unrhyw rai yn y dyfodol, mae'n bwysig bod ym gymesur ynghylch y mater. Os yw'r sgoriau wedi'u cymedroli yn wahanol iawn i sgoriau'r consensws cyntaf, dylai gwerthuswyr gofnodi'r rhesymau penodol pam eu bod wedi newid eu barn.

e) Rhoi argymhelliad a oes angen ymchwilio i dendrau eraill.

3.29 Argymhellir cynnal Archwiliad Mewnol ar sampl o ymarferion caffael a gynhaliwyd ledled LlC unwaith y bydd y broses newydd a'r gwelliannau wedi cael amser i ymwreiddio – ddim mwy na chwe mis ar ôl dyddiad yr adolygiad hwn.

Argymhelliad – Yr adran Archwilio Mewnol i gynnal adolygiad o LlC yn gyfan i sicrhau bod y gwersi wedi'u dysgu.

ARGYMHELLION

Para	Argymhelliad	Camau i'w Cymryd	Cyfrifoldeb	Amserlen
3.10	Dylid cyfuno asesiadau risg y CPS a'r timau polisi, a chynnal yr ymarferion caffael mewn ffordd sy'n gymesur â lefel y risg a bennir.	Bydd CPS yn adolygu'r Asesiad Risg Strategaeth Gaffael (PSRA) i roi'r gwersi a ddysgwyd o'r ymarferiad hwn ar waith. Byddwn yn trafod hefyd ym mhob un o gyfarfodydd PSRA â'r isadrannau polisi y risgiau a gyfunir i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi, cofnodi a'u rheoli. Mae pob ymarfer caffael yn cael ei gynnal mewn ffordd gymesur, bydd hynny'n	Dirprwy Gyfarwyddwr, Caffael Masnachol a Strategaeth Grŵp	01/04/2020

		atgyfnerthu'r gwersi a ddysgwyd.		
3.18	Bod holl cynrychiolwyr arweiniol y CPS yn cynnal asesiad risg o'r ymarfer caffael ar wahanol adegau yn ystod y broses, gan gynnwys ar ôl cymedroli.	Cyflwyno proses asesu risg ar adegau rheolaidd. Bydd y CPS hefyd yn newid y papur argymell dyfarnu contract i adlewyrchu hyn.	Dirprwy Gyfarwyddwr, Caffael Masnachol a Strategaeth Grŵp	01/04/2020
3.18	Bod pob sgôr yn cael ei gwirio yn ystod proses Sicrhau Ansawdd ymarferion y dyfodol. Bydd angen cadarnhau hynny yn y datganiad gan swyddogion y CPS a pholisi.	Bydd y CPS yn newid y broses asesu a gynhelir ar adegau penodol ac yn newid y papur argymell dyfarnu contract i adlewyrchu hyn. Cytunwyd hefyd â'r rheolwyr i gynnwys y rhesymau a sylwadau	Dirprwy Gyfarwyddwr, Caffael Masnachol a Strategaeth Grŵp	01/04/2020
3.18	Bod y CPS yn ystyried ailgyflwyno ymarfer adolygu llawn gan gymheiriaid o'r dogfennau i sicrhau bod y dadansoddiad o'r risg yn briodol, bod y sgorio'n edrych yn iawn a bod y naratif yn ddigonol	Bydd y CPS yn ceisio ailgyflwyno adolygiadau gan gymheiriaid mewn cyfarfodydd Caffael SMT yn y camau strategaeth a dyfarnu.	Dirprwy Gyfarwyddwr, Caffael Masnachol a Strategaeth Grŵp	01/05/2020
3.19	bod y CPS yn ystyried cyfeirio ymarferion caffael uchel eu risg a / neu cymhleth i ddarparwyr arbenigol allanol, ac yn cofnodi hynny.	Bydd y CPS yn ystyried hyn yn PSRA gyda'r is-adran polisi. Os bydd angen, fe'i codir i lefel SCS	Dirprwy Gyfarwyddwr, Caffael Masnachol a Strategaeth Grŵp	01/04/2020
3.21	Lle gwelir bod ymarfer caffael yn un uchel ei risg a/neu gymhleth, rhywun ar lefel SCS ddylai ei lofnodi o fewn	Cytuno. Cyflwynir y broses hon yn SMT Caffael Masnachol sydd o dan arweiniad SCS.		

	CPS / Masnach a Chaffael.			
3.26	Dylid cynnwys gwelliannau pellach i'r naratif ym mhob adroddiad cymedroli, i gynnwys o leiaf y rheswm penodol pam y mae pob gwerthuswr wedi cytuno ar sgôr consensws sy'n wahanol i'r un a roddwyd. Dylid gofyn cyngor cydweithwyr Llywodraethu, Archwilio a Chyfreithiol am y gofynion lleiaf. Dylid rhoi arweiniad i aelodau'r panel ar y problemau sy'n ymwneud â'r ymarfer caffael hwn i sicrhau bod pawb yn gwybod beth fyddai effaith peidio â bod yn gytbwys ac yn dryloyw.	Mae'r CPS wedi e-bostio'r holl staff sy'n rhan o'r broses werthuso i esbonio hyn (29 Ion 2020) ond caiff ei drafod hefyd yng nghyfarfod tîm nesaf CPS a'r Grŵp Caffael Bydd y CPS yn trefnu i gwrdd â chydweithwyr i drafod gofyn am gyngor ar y llwybr archwilio y bydd angen iddo gydymffurfio â gofynion PCR. Bydd y CPS yn diweddaru ei arweiniad i adlewyrchu hyn. Bydd y CPS yn ystyried datblygu modiwl e-ddysgu, yn benodol at ddiben gwerthuso (cyn belled â bod arian)	Pennaeth Masnachol a Chaffael	29/1/2020 17/3/2020 2/4/2020 01/04/2020 01/04/2020 01/07/2020
3.29	Yr adran Archwilio Mewnol i gynnal adolygiad o LlC gyfan i sicrhau bod y gwersi wedi'u dysgu.		IAS	01/02/2021